**Athro Arbenigol Addysg Diwylliant**
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn elusen eiconig a deinamig sy'n ymroi i ymchwil a chadwraeth bioamrywiaeth, cynaliadwyedd, dysgu gydol oes a mwynhad ein hymwelwyr. Mae'r ystâd o 560 o erwau yn cynnwys Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las.

Rydym yn chwilio am rywun sy'n angerddol, yn egnïol ac yn gallu ysbrydoli i arwain ein Hadran Addysg. Mae hwn yn gyfle rhagorol i unigolyn i ddatblygu a gweithredu cynllun arloesol ar gyfer addysg ffurfiol ac anffurfiol o fewn yr Ardd a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las. Bydd yn darparu rhaglen lwyddiannus a chynyddol ar gyfer pob oed a gallu, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, ysgolion, colegau, prifysgolion a dysgu gydol oes. Yn benodol bydd yn arwain ac yn cefnogi datblygiad rhaglen addysg i gefnogi'r diwylliant Cymraeg ac i'w darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn deall cenhadaeth yr Ardd ac wedi ymrwymo iddi, a bydd yn wybodus ac yn brofiadol yn y sector addysg. Mae gan yr Ardd record wych o ddarparu ar gyfer y blynyddoedd cynnar a'r lefel gynradd, ac mae'n bwriadu ymestyn a datblygu darpariaeth ar lefel uwchradd, AB ac AU. Bydd yn gallu cyfathrebu'n wych ac yn meddu ar sgiliau arwain cryf, ymwybyddiaeth o fasnach ac yn gallu gwneud argraff gadarnhaol ar unwaith. Rydym yn chwilio am rywun sy'n gallu ei ysgogi ei hun, gydag agwedd 'gallu gwneud' sy'n canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau. Mae gallu ysgrifennu a siarad Cymraeg yn rhugl, yn ogystal ag ymrwymiad i bobl, iaith a diwylliant Cymru, yn Hanfodol.

Fel sefydliad cenedlaethol, mae gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru weledigaeth o gysylltu â phob plentyn yng Nghymru yn ystod ei gyfnod ysgol, oherwydd mae pob plentyn yn haeddu profi a dysgu am fyd cyffrous planhigion a natur a'u cysylltiad â diwylliant.

## BRASLUN O FANYLION Y PENODIAD

Mae hon yn swydd amser-llawn o 37.5 awr yr wythnos (1ALLC) ar sail cyfnod penodol am 12 mis o'r dyddiad cychwyn. Bydd yn ofynnol teithio, a gweithio ar benwythnosau o bosibl. Y gyflog yw £37,739 pro rata y flwyddyn.

**Croesawir ymholiadau anffurfiol, a dylid cyfeirio unrhyw geisiadau i'r Rheolwr AD. HRManager@gardenofwales.org.uk.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, ac ni fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na rhai a gyflwynir yn Saesneg.**

**Dylai ceisiadau fod a ffurf CV llawn a llythyr cynnwys yn rhoi manylion sut ydych yn bodloni meini prawf y swydd.**

# AMLINELLIAD O'R CEFNDIR

## YR ARDD

Agorodd yr Ardd ym mis Mai 2000, ac mae wedi ymroi i ymchwil a chadwraeth bioamrywiaeth, cynaliadwyedd, dysgu gydol oes a mwynhad ein hymwelwyr. Mae ei chanolbwyntio ar gadwraeth yn golygu bod ethos o gynaliadwyedd yn greiddiol i'r ffordd y mae'r sefydliad yn gweithio, yn darparu addysg, yn cynnal ei ystâd a'r ffordd mae ei weithgareddau busnes yn cael eu cynnal a'u trefnu.

Datblygwyd ystâd yr Ardd fel un o dri buddsoddiad Mileniwm sylweddol yng Nghymru, ac mae'n ymestyn dros ryw 560 erw o ardd fotaneg wedi ei phlannu a GNG sy'n cael ei ffermio, a hyn i gyd mewn hen Barcdir o Gyfnod y Rhaglywiaeth o bwysigrwydd treftadaeth yn Nyffryn Tywi. Mae cyfleusterau ystâd, adeiladau a seilwaith yr Ardd yn cynnwys adeiladau a pharcdir Gradd II wedi eu rhestru, Tŷ Gwydr Mawr eiconig wedi ei gynllunio gan bensaer byd-enwog, amrywiol fannau Addysg, Canolfan Wyddoniaeth, swyddfeydd, Porthdy i dderbyn ymwelwyr, cyfleustra digwyddiadau corfforaethol, tŷ bwyta, adeiladau dysgu, tai gwydr garddwriaeth, a nifer o ffermdai tyddynnod bach ar y cyrion.

Mae'r Ardd yn ganolfan Addysg a Gwyddoniaeth hanfodol a phwysig sy'n cael ei chydnabod yn Ased Genedlaethol yn y Strategaeth Wyddoniaeth ar gyfer Cymru. Mae hefyd yn hyb STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg). Mae'n rheolaidd yn trefnu dros 25,000 o ddigwyddiadau addysg ac allestyn – y mwyafrif o'r rheiny fel ymweliadau ar y safle.  Mae'r cyfleusterau addysg yn cynnwys man dysgu Aqualab wedi ei gynllunio'n arbennig, ystafelloedd dosbarth pwrpasol, mannau 'nôl at natur' wedi eu tirweddu yn yr awyr agored gyda phyllau archwilio a mannau cysgodi. Mae'r Ardd yn denu disgyblion o 17 o'r 22 o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn ogystal ag o Loegr a grwpiau'n achlysurol o wledydd tramor. Mae'n cynnig 60 o gyrsiau'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, mewn amrywiaeth o ddulliau'n cael eu dysgu a rhai hunan ddysgu.

Mae gweithgareddau addysg yn rhan greiddiol integredig o ddibenion yr Ardd, ac maent yn ymestyn o'r cyfnod Sylfaen i Addysg Uwch gan gydweithio'n agos â gwaith ymchwil cadwraeth, dysgu awyr agored ar sail tir, hyfforddiant garddwriaeth, ac agweddau eraill ar weithgareddau'r Ardd.

Fel atyniad rhanbarthol i ymwelwyr ac ased economaidd, hon yw'r ardd fwyaf ei hymwelwyr yng Nghymru. Mae wedi croesawu dros 2.2 miliwn o ymwelwyr ac wedi ei dewis yn rhif un 'Wonder of Wales', 'Most Romantic Garden' a 'Best Children's Garden' gan y Western Mail.  Mae amrywiol bolau uchel eu parch gan y cyfryngau wedi cydnabod yr Ardd, ac mae wedi ei dewis yn Brif Ardd i Ymweld â Hi yng Nghymru.

Mae'r Ardd yn elusen sy'n cael cyfran o'i chefnogaeth ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin. Mae hefyd yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn cynhyrchu hanner ei hincwm drwy ei gweithgareddau ei hun, gan gynnwys ymdrechion masnachol. Mae'n rymus yn cynnig am adnoddau ychwanegol oddi wrth amrywiol ffynonellau allanol a chyrff sy'n rhoi grantiau, ac mae'n cael cryn lwyddiant wrth wneud hynny.

**NATIONAL BOTANIC GARDEN OF WALES**
**GARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU**
**Disgrifiad Swydd**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Athro Arbenigol Addysg Diwylliant |
| **Adran** | Addysg |
| **Atebol i** | Rheolwr Datblygu Addysg |
| **DBS** | Manwl (Rhestr Eithrio Plant) |
| **Cyflog** | £37,739 |
| **Contract** | Amser llawn, Cyfnod penodol 12 mis |
| **Y Gymraeg Language** | Hanfodol |

## Diben y swydd

Bydd y swydd hon yn arwain wrth ddatblygu, profi, lansio a gwerthuso rhaglenni addysg diwylliant yn Gymraeg sy'n cyd-fynd â Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant a'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd yn cryfhau cynnig GFGC o addysg ddwyieithog drwy ymgorffori Cynefin a hanesion treftadaeth Cymru ar draws rhaglenni Yn-yr-Ardd, Allestyn, Ar-lein a DPP Athrawon. Mae'r swydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at y fenter Pob Plentyn yng Nghymru, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad ystyrlon i ddiwylliant a threftadaeth drwy blanhigion, tirwedd a stori.

### Cyfrifoldebau a Phrif Elfennau Atebolrwydd

1. Gweithio gyda'r Rheolwr Datblygu Addysg i gryfhau ymhellach y tîm addysg mewn addysg diwylliant, gwella'r cynnig yn y Gymraeg, galluogi'r Ardd i gyd-fynd yn well â'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant, a datblygu rhaglenni addysg newydd sy'n canolbwyntio ar addysg fel rhan o'r fenter Pob Plentyn yng Nghymru.

2. Datblygu, treialu, profi a gloywi dysgu a gweithgareddau dysgu ac adnoddau cysylltiedig arloesol sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant er mwyn lansio ac arfarnu rhaglen newydd o weithgareddau ar gyfer Yn-yr-Ardd; Allestyn; Ar-lein a DPP Athrawon.

3. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gysylltu â phlant i fod yn rhan o'r broses treialu a gwerthuso er mwyn cynyddu gallu GFGC mewn addysg diwylliant a darparu ar gyfer pob oed a gallu, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, cynradd, AB, AU, dysgu gydol oes, ymgysylltu cyhoeddus a hyfforddiant.

4. Gweithio gyda'r Swyddogion Addysg i ddatblygu cynnwys cyrsiau a threialu a gloywi cyrsiau addysg newydd.

5. Rheoli a datblygu rhwydwaith o gysylltiadau gydag amrywiol bartneriaid a rhan-ddeiliaid allanol, gan gynnwys ysgolion a cholegau, yn gysylltiedig â datblygu a gweithredu cwricwlwm a pholisi mewn addysg diwylliant.

6. Datblygu fframwaith monitro a gwerthuso a chynhyrchu adroddiadau cyfnodol sy'n dangos yn llawn effaith y rhaglen Addysg.

7. Cyfrannu, fel aelod o dîm staff yr Ardd, at unrhyw weithgareddau sy'n cyd-fynd â'r swydd hon neu ddyletswyddau sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Ardd a threftadaeth Cymru a'i hiaith, a helpu yn ei llwyddiant yn gyffredinol.

8. Gweithio o fewn safonau'r iaith Gymraeg sydd wedi eu hamlinellu gan y llywodraeth i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ymhellach o fewn yr Ardd. Blaenoriaethu gweithgareddau y gellir eu creu a'u darparu yn Gymraeg.

**MANYLION Y PERSON**

- Ceir manylion isod am y meini prawf a ystyrir yn ofynnol i gyflawni'r swydd.
- Darperir y wybodaeth hon yn agored i ymgeiswyr a bydd yn sail ar gyfer y broses recriwtio a dethol.
- Dim ond yr ymgeiswyr hynny sy'n bodloni'r meini prawf a gaiff eu rhoi ar restr fer.

| | **Meini Prawf a Thystiolaeth a ddisgwylir** | **Dull Asesu** | | |
|---|---|---|---|---|
| | Addysg/Cymwysterau<br>Gwybodaeth/Profiad<br>Cymwyseddau/Gallu | Cais | Cyfweliad | Ymarfer |
| | **Meini Prawf Hanfodol** | | | |
| 1 | Mae angen cymhwyster dysgu a statws athro cymwysedig. | √ | √ | √ |
| 2 | Ysgrifennu a siarad Cymraeg yn rhugl, yn ogystal ag ymrwymiad i bobl, iaith a diwylliant Cymru. | √ | √ | √ |
| 3 | Gallu profi sgiliau arwain, a gallu dangos gallu i weithio gyda rhan-ddeiliaid a'u cynnwys. | √ | √ | |
| 4 | Profiad o'r sector addysg a gallu profi cymhwysedd proffesiynol uniongyrchol wrth ddatblygu a darparu addysg cwricwlwm ac anffurfiol sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant ac ymgysylltu cyhoeddus, ar lefel gynradd ac uwchradd. | √ | √ | √ |
| 5 | Meddu ar sgiliau mewn datblygu a gwerthuso adnoddau dysgu newydd. | √ | √ | √ |
| 6 | Sgiliau cyfathrebu personol gwych ac wedi datblygu'n dda yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys siarad yn llithrig, arddull ysgrifennu rugl, cyflwyno hyderus. | √ | √ | √ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Tystiolaeth o allu ysbrydoli brwdfrydedd, ymgysylltu ac ysgogi athrawon a dysgwyr. Creadigrwydd, dychymyg, dawn, a gallu ysgogi syniadau a gweithgareddau addysgol arloesol. | √ | √ | √ |
| 8 | Gallu profi gallu i drefnu a chynllunio gan roi sylw gofalus i fanylion. Gallu gweithredu'n strategol ac yn weithredol yn ymarferol. | √ | √ | √ |
| 9 | Sgiliau rhifedd da ac ar allweddell, a gallu TG. Gallu llywio data a gwybodaeth, i ddehongli ac adrodd am dueddiadau a chanlyniadau. | √ | √ | |
| 10 | Record dda o weithio ar lefel uchel o gyfrifoldeb ac atebolrwydd personol gyda chyn lleied â phosibl o oruchwyliaeth wrth ddarparu canlyniadau yn erbyn targedau. | √ | √ | √ |
| 11 | Teimlo'n wirioneddol angerddol am genhadaeth a diben yr Ardd a brwdfrydedd dros barhau ei llwyddiant, syniad o dîm, enw da ac ethos. | √ | √ | √ |